

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 5ed o EBRILL 2017 YN SWYDDFA'R CYNGOR, NEUADD PONTIETS AM 7.00.

Presennol: Alan Lewis (yn y gadair), Ian Evans, Heddwyn Jones, Margaret Rees, Tyssul Evans, Linda Williams, Geraint Rosser, Richard Thomas, Meic Bowen, Aled Williams a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Carrie Rees, Wendy Evans, Geoff Hewitt ac Ellis Jenkins

Materion Personol

1680 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

1681 Croesawyd Mr Stuart Thomas o Gwendraeth Valley Railway i'r Cyfarfod. Mynegwyd pryder gan rhai o'r Cynghorwyr ynglŷn â safon y gwaith a gyflawnwyd yn ddiweddar ar gatiâu Rheilffordd Pontiets. Cafwyd cadarnhad gan Mr Thomas y byddai'r gwaith anfodhaol yn cael ei gosod mewn safon well gan yr arbenigwr Wedi i Mr Thomas gadael y cyfarfod penderfynwyd y byddwn ond yn talu £2500 am y gwaith a gyflawnwyd hyd yn hyn ac edrychwn eto ar y sefyllfa yn ein cyfarfod nesaf.

1682 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 06/03/2017 fel rhai cywir.

1683 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 16056 - Toiledau'r Meinciau - Penderfynwyd hysbysebu swydd y Gofalydd yn lleol

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1684 Sioe Bancffosfelen a'r Cylch – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £200.

1685 Clwb Ffermwyr Ifainc San Ishmael - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

1686 Gwendraeth Valley Air Scouts– Penderfynwyd danfon cyfraniad o £250.

Cynghorwyr Ian Evans ac Aled Williams yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1687 Carway Football & Cricket Club – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £700.

Ian ac Aled yn ail ymuno a'r cyfarfod

Cynghorwr Meic Bowen yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1688 Côr Merched Glannau'r Gwendraeth- Bocs i ddal 'Diffibrilator' - Penderfynwyd mewn egwyddor talu am y Bocs. Bydd y Clerc yn cwrdd ar rai o'r Côr i edrych ar y mater ymhellach

Meic yn ail ymuno a'r cyfarfod

1689 Salem Pedair Heol – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £300.

1690 Meinciau Sports & Recreation Club – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1691 Cruse Bereavement Care, Sir Gar - Llythyr yn diolch am y rhodd.

1692 Bobath Cymru– Llythyr yn diolch am y rhodd.

1693 Gwirfoddolwyr Llyfrgell Pontiets – Llythyr yn diolch am y rhodd o Garped Newydd.

1694 Clwb Rygbi Pontiets – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1695 Carway Football & Cricket Club – Trydan ym Marc Carwe – Awdurdodwyd y Clerc i dalu'r Bil o £96.00.

1696 Cyngor Sir Gar - Taliadau ar gyfer Goleuadau Troedffyrdd 2017/2018 - amcan brys o £12817.93- Nodwyd y Llythyr.

1697 Cyngor Sir Gar – Costau Toiledau'r Meinciau – Awdurdodwyd y Clerc i dalu'r bil o £179.50.

Ceisiadau Cynllunio

1698 Ceisiadau Cynllunio

- a) Cais Rhif W/35248- Mr Savage– Awelon,Pontantwn– Estyniad a Garej- Dim Gwrthwynebiad .
- b) Cais Rhif W/35315 - Mr & Mrs Davies – 12,Heol Wepner, Pontiets - Estyniad- Dim Gwrthwynebiad
- c) Cais Rhif W/35365 – Mr & Mrs Wyn a Susan Rees – Fferm Tynewydd, Pontantwn – Dim Gwrthwynebiad.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1699 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Mawrth 2017.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

1700 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

- a) Cyflog y Clerc - £388.61 (Mis Mawrth)
- b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Mawrth)
- c) Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £100.00 (Mis Mawrth)
- ch) HMRC (Treth)- £77.60 (Mis Mawrth)
- d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Mawrth)
- dd) BT – Ffon y Swyddfa - £45.48 (Mis Mawrth)
- e) Nwyddau'r Swyddfa- £25.74
- f) Cyngor Sir Gar – Hanner Lampau - £6.79
- ff) Carped y Llyfrgell - £792.00

Polisiau'r Cyngor

1701 Nodwyd bod copi o'r Polisi Iaith wedi cael ei danfon at Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg

Cynghorwr Geraint Rosser yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

Shared Access

1702 Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglŷn â'r mater uchod. Awdurdodwyd y Clerc i arwyddo Ffurflen Western Power ynglŷn a 'Wayleave' i'r Clwb Rygbi. Arhoswn am adroddiad pellach oddiwrth Shared Access.

Geraint yn ail ymuno a'r cyfarfod

Materion Cynghorwyr

1703 Ian – a) Gofyn eto am arwyddion Baw Cwn yng Ngharwe.
b) Gofyn am Gyfarfod Safle ar y llwybr Treftadaeth ym Mhontnewydd gyda Martin Murray i drafod problem Motor-beics.
c) Gofyn eto am Gyfarfod i drafod cyflymder traffig ar Stad Ffoslas

1704 Linda - Baw Cwn ym Maesglas - A allwn gael arwyddion?

1705 Richard - a) Edrych am safle a phris am Gysgodfan newydd yn Llangydeyrn
b) Gofyn am arwyddion ym Mhontantwn i Langydeyrn a Llandyfaelog.

1706 Margaret - Cysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â phroblem troi y m Maesyberllan, Llangydeyrn.

1707 Heddwyn - a) Cysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â chadw Cwn yn Fferm Tanaerdy, Pontiets
b) Problem Carafán ar Heol Herberdeg, Carwe.

Cyfarfod nesaf:- 8fed o Fai 2017 yn Swyddfa'r Cyngor, Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol (Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd..... CADEIRYDD

Dyddiad.....